



Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Gwasanaethau Ariannol

Cefndir

1. Cyflwynwyd y Bil Gwasanaethau Ariannol (“y Bil”) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 26 Ionawr 2012. Mae'r Bil yn darparu fframwaith newydd ar gyfer rheoleiddio ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae'n gwneud Banc Lloegr yn gyfrifol am sicrhau a diogelu sefydlogrwydd systemau ariannol yn y Deyrnas Unedig ac yn darparu ar gyfer rheoleiddiwr annibynnol dros gynnal busnes. Bydd yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn cael ei ddiddymu a'i swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo i gyrff eraill.

2. Ar 3 Chwefror 2012, cyflwynwyd y cynnig sy'n dilyn gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau:

“bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Gwasanaethau Ariannol fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 26 Ionawr 2012 mewn perthynas â'r Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr (CAAD), i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.”

3. Ar yr un dyddiad, gosododd y Gweinidog gerbron y Cynulliad Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol¹ yn ymwneud â'r cynnig. Mae'r Memorandwm yn fras yn esbonio cefndir y Bil a pham mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y dylid caniatáu i Senedd y Deyrnas Unedig ddod o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

4. Ystyriwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan y Pwyllgor Busnes ar 7 Chwefror, a chytunodd i'w gyfeirio at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (“y Pwyllgor”) i graffu arno. Cytunodd y

¹ <http://www.cynulliadcymru.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=230149&ds=3/2012>

Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn 21 Mawrth 2012. Mae'r cynnig i gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Mawrth 2012.

5. Ystyriodd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2012.

Ein barn

6. Nodwn fod y Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â'r Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr, sydd â swyddogaeth statudol i wella dealltwriaeth a gwybodaeth y cyhoedd am faterion ariannol, ac i wella gallu'r cyhoedd i reoli eu materion ariannol eu hunain. Nodwn hefyd y bydd y Bil yn ymestyn swyddogaeth y Corff hwn i'w gwneud yn ofynnol iddo helpu'r cyhoedd i reoli dyled ac i weithio gyda sefydliadau eraill er mwyn gwella gwasanaethau dyledion.

7. Er bod materion yn ymwneud â gwasanaethau ariannol a diogelu defnyddwyr y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, rydym yn cydnabod bod rhai darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud ag addysg yn dod o fewn ei gymhwysedd.

8. O gofio nad yw rheoleiddio gwasanaethau ariannol wedi'i ddatganoli mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig ac y bydd y Bil, os daw i rym, yn gymwys drwy'r Deyrnas Unedig, barnwn ei bod yn synhwyrol i gorff y Deyrnas Unedig, sy'n dod o fewn y strwythur a gaiff ei sefydlu yn y Bil hwn, fod yn gyfrifol am ddarparu addysg a chymorth i ddefnyddwyr mewn cysylltiad â gwasanaethau ariannol.

9. Felly, barnwn ei bod yn briodol i Senedd y Deyrnas Unedig ddeddfu ar y mater hwn fel y disgrifir ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

10. Felly, nid yw'r Pwyllgor yn gwrthwynebu defnyddio Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol fel y cynigir gan Lywodraeth Cymru.